

CYFARFOD COMISIWN FFINIAU A DEMOCRATIAETH LEOL CYMRU A GYNHALIWYD AR 26 CHWEFROR 2019 YNG NGWESTY MERCURE, CAERDYDD

Yn bresennol: Mr Owen Watkin (Cadeirydd); Mr Ceri Stradling; Mr David Powell; Mrs Julie May a Mr Theodore Joloza.

Swyddogion CFfDLC yn bresennol: Mrs Shereen Williams (Prif Weithredwr); Mr Matt Redmond (Dirprwy Brif Weithredwr); Mr Dave Carr (Rheolwr Cyllid); Mr David Burley (Rheolwr Cymorth Busnes); Mr Tom Jenkins (Rheolwr Arolygon); Mr Huw Blacker (Swyddog Arolygon); Mr Farhan Khan (Swyddog Arolygon);

Amser Dechrau: 09:30

Amser Gorffen: 14:00

Ymddiheuriadau: Matthew Farrell (Swyddog Arolygon), Cher Cooke (Swyddog Arolygon), Cath Thomas (Cynorthwydd Arolygon), Caroline Redmond (Cynorthwydd Swyddfa)

1. Datganiadau o Fuddiant

1.1. Ni wnaed unrhyw Ddatganiadau o Fuddiant.

2. Briff gan y Cadeirydd

2.1. Bydd Julie James AC, y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol, yn ymweld â'r Comisiwn ar 13 Mai. Bydd briff yn cael ei ddarparu ar yr hyn y mae rôl y Comisiwn yn ei olygu.

2.2. Mae'r Bil Llywodraeth Leol wedi'i ohirio hyd nes y clywir yn wahanol.

2.3. Mae Bil Comisiwn y Cynulliad yn debygol o gael Cydsyniad Brenhinol ym mis Ionawr.

2.4. Bydd Sinead O'Toole yn gadael ei swydd yn adran noddwyr y Comisiwn o fewn Llywodraeth Cymru. Bydd y Prif Weithredwr yn anfon neges e-bost at Sinead yn diolch iddi am ei chymorth a'i chefnogaeth.

3. Cofnodion cyfarfod y Comisiwn a gynhaliwyd ar 29 Ionawr 2019

3.1. **Penderfynwyd** cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 26 Chwefror 2019, yn dilyn nifer o fân ddiwygiadau, fel cofnod cywir o'r materion a ystyriwyd.

4. Materion yn Codi

- 4.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r adroddiad dyddiedig 19 Chwefror 2019 gan y Prif Weithredwr ar Faterion yn Codi.
- 4.2. **Penderfynwyd** derbyn yr Adroddiad yn gyffredinol gan nodi'r mater i'w drafod yn ddiweddarach yn y cyfarfod, a hefyd nodwyd cynnydd wedi'i ddiweddarau ar y materion canlynol:
 - **(Mater 3)** Polisiâu Adnoddau Dynol
 - **(Mater 5)** Adolygiad JEGS (Cymorth Graddio a Gwerthuso Swyddi)
 - **(Mater 6)** Argymhellion BuMP (Buddsoddwyr mewn Pobl).

5. Arolwg Etholiadol Sir Ddinbych - Opsiynau

- 5.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 19 Chwefror 2019 gan y Swyddog Arolygon.
- 5.2. Cytunodd y Comisiwn ar Gynllun 2 ar gyfer Ardal Gogledd Prestatyn a De Orllewin Prestatyn, sy'n cynnwys y wardiau etholiadol canlynol:

Gogledd Prestatyn a De Orllewin Prestatyn

Nodwyd y rhesymau canlynol i gefnogi'r penderfyniad:

- Mae'n cadw'r trefniadau presennol
- Mae'n cadw ffiniau a nodir yn hawdd
- Diffyg cynrychiolaethau yn cefnogi Cynllun 1.

- 5.3. Cytunodd y Comisiwn ar Gynllun 1 ar gyfer Ardal De Ddwyrain y Rhyl, sy'n cynnwys y ward etholiadol ganlynol:

De Ddwyrain y Rhyl

Nodwyd y rhesymau canlynol i gefnogi'r penderfyniad:

- Mae'n gwella lefel gyffredinol y cydraddoldeb etholiadol yn yr ardal yn sylweddol
- Nid yw'r un o'r wardiau'n parhau i fod yn fwy na $\pm 25\%$ o'r cyfartaledd sirol
- Mae'n mynd i'r afael â'r cynrychiolaethau a dderbyniwyd oddi wrth Gyngor Sir Ddinbych a Chyngor Tref y Rhyl.

- 5.4. Cytunodd y Comisiwn ar Gynllun 1 ar gyfer Ardal Dinbych, sy'n cynnwys y wardiau etholiadol canlynol:

Canol Dinbych, Dinbych Isaf a Dinbych Uchaf/Henllan

Nodwyd y rhesymau canlynol i gefnogi'r penderfyniad:

- Mae'n gwella lefel gyffredinol y cydraddoldeb etholiadol yn yr ardal yn sylweddol.

- 5.5. Cytunodd y Comisiwn ar Gynllun 1 ar gyfer yr Ardal Wledig, sy'n cynnwys y wardiau etholiadol canlynol:

Llanarmon-yn-lâl/Llandegla a Llanbedr Dyffryn Clwyd/Llangynhafal

Nodwyd y rhesymau canlynol i gefnogi'r penderfyniad:

- Mae'n gwella lefel gyffredinol y cydraddoldeb etholiadol yn yr ardal
- Mae'n cadw wardiau un aelod.

- 5.6. Cytunodd y Comisiwn ar Gynllun 1 ar gyfer Ardal Corwen a Llandrillo, sy'n cynnwys y wardiau etholiadol canlynol:

Corwen a Llandrillo

Nodwyd y rhesymau canlynol i gefnogi'r penderfyniad:

- Mae'n gwella lefel gyffredinol y cydraddoldeb etholiadol yn yr ardal

- 5.7. Ystyriodd y Comisiwn enwau'r wardiau etholiadol a chytunwyd y bydd ward etholiadol arfaethedig Corwen a Llandrillo yn cael yr enw uniaith Edeirnion a argymhellir, fel y cynigiwyd gan y Cyngor Sir.

- 5.8. Ystyriodd y Comisiwn enwau'r wardiau etholiadol a chytunwyd y bydd ward etholiadol arfaethedig Canol Dinbych a Dinbych Uchaf gyda Henllan yn cael yr enw Cymraeg Dinbych Caledfryn a Henllan a'r enw Saesneg Dinbych Caledfryn and Henllan a argymhellir fel y cynigiwyd gan y Cyngor Sir.

- 5.9. Ystyriodd y Comisiwn enwau'r wardiau etholiadol a chytunwyd y bydd ward etholiadol arfaethedig Llanarmon-yn-lâl a Llandegla yn cael yr enw Cymraeg Dyffryn Alyn a'r enw Saesneg Alyn Valley a argymhellir fel y cynigiwyd gan y Cyngor Sir.

- 5.10. Ystyriodd y Comisiwn enwau'r wardiau etholiadol a chytunwyd y bydd ward etholiadol arfaethedig Llanbedr Dyffryn Clwyd a Gwyddelwern yn

cael yr enw sengl Llanbedr Dyffryn Clwyd Gwyddelwern a argymhellir fel y cynigiwyd gan y Cyngor Sir.

- 5.11. Ystyriodd y Comisiwn enwau'r wardiau etholiadol a chytunwyd y bydd ward etholiadol arfaethedig Llanbedr Dyffryn Clwyd, Llanferres a Llangynhafal yn cael yr enw sengl Moel Famau a argymhellir fel y cynigiwyd gan y Cyngor Sir.

6. Arolwg Etholiadol Blaenau Gwent – Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

- 6.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 20 Chwefror 2019 gan y Swyddog Arolygon.
- 6.2. Cytunwyd ar yr Adroddiad yn amodol ar fân ddiwygiadau.

7. Arolwg Etholiadol Blaenau Gwent – Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg

- 7.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 20 Chwefror 2019 gan y Swyddog Arolygon.
- 7.2. Cytunwyd ar yr Adroddiad.

8. Arolwg Etholiadol Rhondda Cynon Taf – Opsiynau

- 8.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 19 Chwefror 2019 gan y Swyddog Arolygon.
- 8.2. Cytunodd y Comisiwn ar Opsiwn 3 ar gyfer Ardal Pontypridd, sy'n cynnwys y wardiau etholiadol canlynol:

Cilfynydd, Glyn-coch, Graig, Y Ddraenen Wen, Tref Pontypridd, Rhondda, Canol Rhydfelen/Ilan, Ffynnon Taf, Trallwng, Trefforest ac Ynys-y-bwl

Nodwyd y rhesymau canlynol i gefnogi'r penderfyniad:

- Mae'n gwella lefel gyffredinol y cydraddoldeb etholiadol yn yr ardal
- Mae'n cadw 46% o'r trefniadau presennol
- Nid yw'n creu unrhyw gymunedau rhanedig.

- 8.3. Cytunodd y Comisiwn ar Opsiwn 1 ar gyfer Ardal Llanilltud Faerdref, sy'n cynnwys y wardiau etholiadol canlynol:

Pentre'r Eglwys, Llanilltud Faerdref a Thon-teg

Nodwyd y rhesymau canlynol i gefnogi'r penderfyniad:

- Mae'n gwella lefel gyffredinol y cydraddoldeb etholiadol yn yr ardal
- Fe'i cynigiwyd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol RhCT
- Nid yw'n creu unrhyw wardiau tri aelod
- Nid yw'n creu unrhyw gymunedau rhanedig.

- 8.4. Cytunodd y Comisiwn ar Opsiwn 1 ar gyfer Ardal Llantrisant, sy'n cynnwys y wardiau etholiadol canlynol:

Beddau, Tref Llantrisant, Tonysguboriau a Thyn-y-Nant

Nodwyd y rhesymau canlynol i gefnogi'r penderfyniad:

- Mae'n gwella lefel gyffredinol y cydraddoldeb etholiadol yn yr ardal
- Mae'n mynd i'r afael â'r cynrychiolaethau a dderbyniwyd
- Nid yw'n creu unrhyw wardiau tri aelod.

- 8.5. Cytunodd y Comisiwn ar Opsiwn 1 ar gyfer Ardal Pont-y-clun a Llanhari, sy'n cynnwys y wardiau etholiadol canlynol:

Llanhari a Phont-y-clun

Nodwyd y rhesymau canlynol i gefnogi'r penderfyniad:

- Mae'n gwella lefel gyffredinol y cydraddoldeb etholiadol yn yr ardal yn sylweddol
- Mae'n cadw ffiniau a nodir yn hawdd
- Fe'i cynigiwyd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol RhCT
- Mae'n osgoi rhannu ward etholiadol bresennol Pont-y-clun yn dair wrth fypwy.

- 8.6. Cytunodd y Comisiwn ar Opsiwn 2 ar gyfer Ardal Llanharan, sy'n cynnwys y wardiau etholiadol canlynol:

Brynna a Llanharan

Nodwyd y rhesymau canlynol i gefnogi'r penderfyniad:

- Mae'n gwella lefel gyffredinol y cydraddoldeb etholiadol yn yr ardal yn sylweddol.

- 8.7. Cytunodd y Comisiwn ar Opsiwn 1 ar gyfer Ardal De Rhondda, sy'n cynnwys y wardiau etholiadol canlynol:

Cwm Clydach, y Cymer, Gilfach Goch, Pen-y-graig, Porth, Tonypany, Dwyrain Tonyrefail and Gorllewin Tonyrefail.

Nodwyd y rhesymau canlynol i gefnogi'r penderfyniad:

- Mae'n gwella lefel gyffredinol y cydraddoldeb etholiadol yn yr ardal yn sylweddol
- Fe'i cynigiwyd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol RhCT
- Nid yw'n creu unrhyw gymunedau rhanedig.

- 8.8. Cytunodd y Comisiwn ar Opsiwn 1 ar gyfer Ardal Gogledd Orllewin Rhondda, sy'n cynnwys y wardiau etholiadol canlynol:

Llwynypia, Pentre, Trealaw, Treherbert, Treorci ac Ystrad

Nodwyd y rhesymau canlynol i gefnogi'r penderfyniad:

- Mae'n gwella lefel gyffredinol y cydraddoldeb etholiadol yn yr ardal
- Fe'i cynigiwyd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol RhCT
- Nid yw'n creu unrhyw wardiau tri aelod.

- 8.9. Cytunodd y Comisiwn ar Opsiwn 1 ar gyfer Ardal Rhondda Fach, sy'n cynnwys y wardiau etholiadol canlynol:

Glynrhedynog, Maerdy, Tylorstown ac Ynys-hir

Nodwyd y rhesymau canlynol i gefnogi'r penderfyniad:

- Mae'n gwella lefel gyffredinol y cydraddoldeb etholiadol yn yr ardal
- Mae'n cadw ffiniau a nodir yn hawdd
- Fe'i cynigiwyd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol RhCT
- Nid yw'n creu unrhyw wardiau tri aelod.

- 8.10. Cytunodd y Comisiwn ar Opsiwn 2 ar gyfer Ardal Hirwaun a'r Rhigos, sy'n cynnwys y wardiau etholiadol canlynol:

Hirwaun a'r Rhigos

Nodwyd y rhesymau canlynol i gefnogi'r penderfyniad:

- Mae'n gwella lefel gyffredinol y cydraddoldeb etholiadol yn yr ardal yn sylweddol.

- 8.11. Cytunodd y Comisiwn ar Opsiwn 1 ar gyfer Ardal Cwm Cynon, sy'n cynnwys y wardiau etholiadol canlynol:

Gogledd Aberaman, De Aberaman, Abercynon, Dwyrain Aberdâr, Gorllewin Aberdâr/Llwydcoed, Cwm-bach, Dwyrain Aberpennar, Gorllewin Aberpennar, Pen-y-waun a Phenrhiw-ceibr.

Nodwyd y rhesymau canlynol i gefnogi'r penderfyniad:

- Mae'n gwella lefel gyffredinol y cydraddoldeb etholiadol yn yr ardal yn sylweddol
- Fe'i cynigiwyd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol RhCT
- Nid yw'n creu unrhyw gymunedau rhanedig.

8.12. Ystyriodd y Comisiwn enwau'r wardiau etholiadol y cytunwyd arnynt, a chytunwyd mai Rhydfelen Uchaf/Glyntaf ddylai fod yr enw Cymraeg ar gyfer y ward Rhydfelen Upper/Glyntaf arfaethedig, i adlewyrchu'r enwau eraill ledled y Sir.

9. Rheoli Risg – Y Gofrestr Risg

- 9.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 15 Chwefror 2019 gan y Rheolwr Cyllid.
- 9.2. **Cytunwyd** i dynnu Risg CR6 o'r gofrestr gan fod y Comisiwn wedi derbyn y brydles wedi'i llofnodi. Adroddwyd bod archwilwyr mewnol y Comisiwn, Deloitte, wedi meincnodi costau prydles y Comisiwn ac wedi dod i'r casgliad eu bod yn cynrychioli gwerth da am arian.
- 9.3. **Cytunwyd** i ddiwygio'r disgrifiad o Risg CR2 i adlewyrchu'r risg yn well fel un sy'n ymwneud â diffyg galluedd i gyflawni'r rhaglen arolygon etholiadol. **Cytunwyd** y bydd camau lliniaru newydd yn cael eu hychwanegu at Risg CR2 i gwmpasu recriwtio staff a chanlyniadau'r ymarfer JEGS ac adolygiad canlyniadol o strwythur staff y Comisiwn. **Cytunwyd** i gynyddu'r raddfa risg weddilliol o 16 i 20 i adlewyrchu'r newidiadau staffio diweddar.
- 9.4. Roedd y Comisiwn o'r farn bod Risg CR4, yn ymwneud â chwblhau'r rhaglen arolygon etholiadol erbyn y terfyn amser yn 2022, yn uniongyrchol gysylltiedig â Risg CR2, ac felly dylai'r risgiau cynhenid a gweddilliol gynyddu yn unol â hynny. **Cytunwyd** y bydd y raddfa risg gynhenid yn cael ei chynyddu o 12 i 15 ac y bydd y raddfa risg weddilliol yn cael ei chynyddu o 6 i 8.
- 9.5. Cytunwyd ar yr adroddiad.

10. Adroddiad ar y Gyllideb

- 10.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 15 Chwefror 2019 gan y Rheolwr Cyllid, a nodwyd amcangyfrif o danwariant o tua £32K ar ddiwedd y flwyddyn.
- 10.2. Adroddwyd bod Llywodraeth Cymru wedi cael gwybod bod y Comisiwn yn bwriadu trosglwyddo £26k o refeniw i gyfalaf i dalu costau'r caledwedd a dodrefn TGCh ychwanegol.
- 10.3. Roedd rhywfaint o'r cyfieithu, argraffu a phostio mewn perthynas â nifer o arolygon wedi'i ohirio ychydig, sy'n golygu na fydd y costau bellach yn cael eu talu yn y flwyddyn ariannol bresennol. Mae'r Comisiwn wedi gofyn am gyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru i dalu'r costau hyn yn y flwyddyn ariannol nesaf (2019-20).
- 10.4. Nodwyd yr adroddiad.

11. Adroddiad Cynnydd y Prosiect Trawsnewid TGCh

- 11.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad gan y Rheolwr Cyllid.
- 11.2. Mae hyfforddiant gwefan wedi'i gwblhau ac mae gwefan newydd y Comisiwn ar y camau olaf cyn mynd yn weithredol ar ôl i Lywodraeth Cymru newid y System Enwi Parthau (DNS).
- 11.3. Mae offer TG newydd ar gyfer y Comisiynwyr wedi'i brynu ac arhosir iddo gael ei ddanfon.
- 11.4. Nodwyd cynnwys yr adroddiad.

12. Cylch Gorchwyl Cyfarfodydd y Comisiwn

- 12.1. Rhoddwyd ystyriaeth i Gylch Gorchwyl Cyfarfodydd y Comisiwn. **Cytunwyd** y bydd cyfeiriad at y system TGCh newydd ac adroddiadau diogelwch TGCh yn cael ei gynnwys.

13. Adroddiad Cynnydd ar Arolygon

- 13.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad gan y Dirprwy Brif Weithredwr.
- 13.2. Ni chodwyd unrhyw newidiadau i'r risgiau presennol.
- 13.3. Nodwyd cynnwys yr adroddiad.

14. Calendr Digwyddiadau

- 14.1. Nododd y Comisiwn y calendr.

15. Unrhyw Fusnes Arall

15.1. Ystyriodd y Comisiwn Aseidiadau Effaith diwygiedig ar gyfer arolwg etholiadol Powys.

Dyddiad y Cyfarfod Nesaf: 26 Mawrth 2019